# Beth i'w ddisgwyl: Gwaith thematig

Bob blwyddyn, rydym yn cynnal sawl adolygiad thematig yn rhan o gyngor penodol y mae Llywodraeth Cymru'n gofyn amdano yn ein llythyr cylch gwaith Estyn blynyddol. Mae'r wybodaeth rydym yn ei chasglu'n helpu creu darlun cenedlaethol o'r pynciau ym mhob adolygiad thematig, a chaiff ein canfyddiadau eu cyhoeddi ar ein gwefan mewn adroddiad thematig.

Yn nhymor yr hydref 2021, rydym wedi ailddechrau ymweld ag ysgolion a darparwyr eraill yn araf ac yn sensitif i gasglu gwybodaeth drwy siarad â dysgwyr, staff ac arweinwyr, adolygu gwaith dysgwyr a dogfennau eraill yn ymwneud â'r adolygiadau thematig canlynol:

- Cefnogaeth consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru
- Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion
- Dulliau o drochi yn y Gymraeg
- Cyngor ac arweiniad diduedd i bobl ifanc gan gynghorwyr Gyrfa Cymru

O dymor y gwanwyn 2022, byddwn yn parhau i ymweld ag ysgolion a darparwyr eraill i gasglu gwybodaeth i ategu dau adolygiad thematig arall, sef:

- Cwricwlwm 16-19
- Dulliau asesu

Rydym yn anfon negeseuon e-bost at ysgolion a darparwyr cyn ymweliadau i roi gwybod iddynt eu bod wedi'u dewis i fod yn rhan o sampl o ddarparwyr ar gyfer pob un o'r adolygiadau thematig. Mae ein harolygwyr yn cysylltu ag ysgolion a darparwyr cyn yr ymweliad hefyd i drafod trefniadau ar gyfer yr ymweliad a chytuno ar unrhyw ddogfennau neu wybodaeth i'w darparu ar y diwrnod. Gall ymweliadau gynnwys gweithgareddau fel arsylwi gwersi, cyfarfod â grwpiau o ddysgwyr neu staff, neu gerdded o gwmpas ardaloedd gwahanol i gael blas ar waith y darparwr. Byddwn yn cytuno ar brotocolau â'r ysgol neu'r darparwr a fydd yn helpu creu darlun clir o addysgu a dysgu, gan gadw dysgwyr, staff a'r arolygydd yn ddiogel ar yr un pryd. Bydd arolygwyr yn hyblyg bob amser wrth ymateb i unrhyw newidiadau i amgylchiadau'r ysgol neu'r darparwr, er enghraifft absenoldeb dysgwyr neu staff, drwy newid yr amserlen weithgareddau yn ôl yr angen.

Caiff ein hadroddiadau thematig eu cyhoeddi ar ein gwefan ac maent yn aml yn cynnwys cameos neu astudiaethau achos o arfer ddiddorol ac effeithiol a fydd yn enwi'r darparwr, fel arfer. Mae ein hadroddiadau'n cefnogi gwelliant mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru drwy roi argymhellion i ysgolion a darparwyr, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, a Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r canfyddiadau allweddol ac agweddau i'w gwella ym mhob un o'r adolygiadau thematig. Ni fydd yr adroddiadau'n amlygu diffygion nac yn rhoi adborth uniongyrchol i ddarparwyr unigol.